Bwrdd Busnes Asiantaeth Tŷ'r Cwmnïau – Nodiadau Crynhoi Cyfarfod – 26 Ionawr 2009

Cofnodion a gweithredu
Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion cyfarfod mis Rhagfyr.

Taflen Sgorio Fisol Tŷ'r Cwmnïau – Rhagfyr 2008
Bu i'r Bwrdd fonitro taflen sgorio'r maes busnes gan gadw golwg ar y cyflawniad yn unol â'r targedau a chan nodi'r cynnydd a wnaethid yn unol â'r arfaethau oedd i'w gwireddu.

Targedau Baich Gwaith

Nododd y Bwrdd nad oedd yr iselder economaidd cyfredol wedi effeithio ar y gofrestr hyd hynny; nid oedd y ffaith yn anarferol a dilynai'r un patrwm ag o dan y tri iselder mawr diwethaf.

Targedau Amgylcheddol
Ystyriodd y Bwrdd y cynnydd a wnaethid o dan y ddau darged amgylcheddol cyhoeddus ar gyfer 2008/09.

Diweddariad Iechyd a Diogelwch (H&S)
Nododd y Bwrdd fod pob ffurflen chwarterol Monitro Asesiad Iechyd a Diogelwch bellach wedi dod i law i gael ei llofnodi'n derfynol.

Risgiau Difrifol Bwrdd Busnes yr Asiantaeth
Adolygodd y Bwrdd y risgiau difrifol.

Arolwg Staff 2008
Trafododd y Bwrdd y camau nesaf yn sgil cyfres o gyflwyniadau cyfarwyddiaeth yn dadansoddi canlyniadau arolwg staff 2008 a'r cynlluniau gweithredu dilynol.

Diweddariad Cynllunio Olyniaeth
Ystyriodd y Bwrdd y cynnydd a wnaethid i integreiddio proses ffurfiol Cynllunio Olyniaeth i drefn Tŷ'r Cwmnïau.

Trefniadau ar gyfer Ymorol Dros Dro / Dyrchafu Dros Dro / Penodiadau Tymor Penodedig
Ystyriodd y Bwrdd y polisi diwygiedig a fyddai'n eglurhau'r sefyllfa gyda golwg ar bob math o ddarpariaeth.

Gwobr Safonau Iechyd Corfforaethol
Trefnasid asesiad prawf a buasai'r aseswyr â meddwl mawr o lefel yr ymrwymiad a'r gefnogaeth a roddai Tŷ'r Cwmnïau i'w staff.

Cynllun Busnes 2009/10 Tŷ'r Cwmnïau – Targedau Cyhoeddus
Trafododd y Bwrdd gynigion ar gyfer targedau cyhoeddus newydd.

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Ionawr 2009